

COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

CYFARFOD Y PWYLLGOR ARCHWILIO AC ATAL RISG A GYNHALIUYD DDYDD MERCHER 21 CHWEFROR 2018 YN NHŶ HASTINGS (10:30 – 12:30)

Aelodau CFFDLC yn bresennol: Ceri Stradling (Cadeirydd), David Powell (Aelod),
Theo Joloza (Aelod)

Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru: Mark Jones

Cynrychiolydd Deloitte yn bresennol: Lauren Parsons

Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru yn bresennol: Lisa James

Swyddogion CFFDLC yn bresennol: Steve Halsall (Prif Weithredwr), Matt Redmond
(Dirprwy Brif Weithredwr), David Carr (Rheolwr
Cyllid), David Burley (Rheolwr Cymorth Busnes)

Croesawodd y Cadeirydd Reolwr Cymorth Busnes newydd y Comisiwn, David Burley, a oedd yn bresennol yn y Pwyllgor am y tro cyntaf.

1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Julie James (Aelod Annibynnol), Ian Howse (Deloitte) a Derwyn Owen (Swyddfa Archwilio Cymru).

2. Datganiadau o Fuddiant

2.1 Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

3. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2017

3.1 **Penderfynwyd** mabwysiadu cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2017

4. Materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol

4.1 Nododd y Pwyllgor fod sawl mater heb eu datrys ar ôl y cyfarfod blaenorol.

4.2 Mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer adolygu allanol cyfnodol o archwilio allanol, disgwyliwyd y byddai adroddiad llafar gan Ian Howse o Deloitte, yn rhoi'r newyddion diweddaraf ar y safbwynt, yn cael ei ddarparu'n nes ymlaen yn yr wythnos. **Cytunwyd** y byddai cynnwys y diweddariad yn cael ei adrodd i aelodau'r Pwyllgor drwy'r e-bost.

Gweithredu: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 23 Chwefror 2018

4.3 Rydym yn aros am ymateb gan Lywodraeth Cymru o hyd ynghylch yr adroddiadau archwilio mewnol ar TG, y gofynnodd y Pwyllgor amdanynt ar gyfer 2017-18. Nodwyd bod y rhain yn annhebygol o gael eu llunio tan ar ôl 31 Mawrth. **Cytunwyd** y byddai'r Rheolwr Cyllid yn parhau i atgoffa Llywodraeth Cymru am y cais o bryd i'w gilydd.

Gweithredu: Rheolwr Cyllid Erbyn: 25 Gorffennaf 2018

- 4.4 Roedd y Rheolwr Cymorth Busnes yn adolygu polisiau CFfDLC er mwyn cydymffurfio ag argymhelliad archwiliad mewnol 2017-18. Fodd bynnag, o ystyried yr ôl-groniad o waith ar gyfer swydd y Rheolwr Cymorth Busnes, ystyriwyd ei bod yn annhebygol y byddai'r dyddiad cau, sef 31 Mawrth, yn cael ei fodloni. Cynigiwyd y gellir trafod y mater hwn ymhellach yn ystod eitem 10 ar yr agenda.
- 4.5 Nodwyd y byddai gofynion archwilio mewnol TG CFfDLC yn cael eu hystyried ymhellach yn nes at adeg rhoi'r trefniadau TG newydd ar waith.
Gweithredu: Rheolwr Cymorth Busnes Erbyn: 21 Tachwedd 2018
- 4.6 Nodwyd y byddai manylebau TG newydd CFfDLC yn cael eu rhoi i Deloitte cyn gynted ag y byddant ar gael, er mwyn eu galluogi i ystyried y trefniadau llywodraethu.
Gweithredu: Rheolwr Cymorth Busnes Erbyn: 21 Tachwedd 2018
- 4.7 Byddai'r arfer o gynnwys adrodd ar y gyllideb ar sail adnoddau, yn rhan o adroddiadau cyllid CFfDLC, yn cael ei sefydlu ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.
Gweithredu: Rheolwr Cyllid Erbyn: 30 Ebrill 2018

5. Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg 2016-17

- 5.1 Nododd y Pwyllgor Gynllun Gwaith 2016-17. Ni chynigiwyd unrhyw newidiadau pellach.

6. Archwilio Allanol: Cynllun Archwilio 2018

- 6.1 Esboniodd Mark Jones fod y Cynllun Archwilio ar gyfer 2018 yn amlinellu'r gwaith arfaethedig ar gyfer archwilio cyfriflenni ariannol 2017-18. Roedd yn cynnwys rhwymedigaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r dull archwilio, tasgau allweddol, allbynnau, manylion am bersonél y tîm archwilio a'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer cyflawni'r gwaith archwilio. Y lefel fateroliaeth ar gyfer adrodd camddatganiadau fyddai £17,000, gyda rhai lefelau materoliaeth is ar gyfer meysydd archwilio penodol. Roedd y gwaith archwilio interim wedi'i gwblhau erbyn Ionawr 2018.
- 6.2 Nodwyd yr amcangyfrifwyd i'r ffi ar gyfer archwiliad 2018 fod yr un fath â ffi 2017. Fodd bynnag, byddai hyn yn amodol ar addasiad ar gyfer unrhyw wahaniaeth rhwng y ffi amcangyfrifedig a'r gwariant gwirioneddol ar yr archwiliad.
- 6.3 Amlinellwyd cyfrifoldebau priodol yr Archwilydd Cyffredinol a CFfDLC yn Atodiad 1 ac roedd Atodiad 2 yn amlygu'r prif risgiau archwilio a all arwain at gamddatganiadau sylweddol yn y cyfrifon ac a fyddai'n mynnu ystyriaeth arbennig yn ystod yr archwiliad. Roedd y rhain fel a ganlyn:
- Cyfrif yn briodol ar gyfer risgiau'n gysylltiedig â chostau porth gwe newydd y Comisiwn ac adnewyddu'r adeilad fel gwariant cyfalaf neu refeniw, a sail taliadau prydles yr adeilad os na fydd cytundeb ynghylch y brydles newydd;

- Y perygl o reolwyr yn anwybyddu rheolaethau. Bydd yr ymateb archwilio yn profi cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau i ddatganiadau ariannol, yn adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ac yn gwirio trafodion sylweddol;
- Y perygl nad yw datgeliadau ar gyfer taliadau cydnabyddiaeth uwch swyddogion yn gywir neu nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion datgelu. Yr ymateb archwilio fydd profi'r holl ddatgeliadau perthnasol ac ystyried unrhyw newidiadau i rolau, cyfrifoldebau a lefelau tâl, ac adolygu prosesau cymeradwyo penodiadau;
- Y perygl o gamddatganiad sylweddol yn y datgeliadau sydd eu hangen ar gyfer y nodiadau i'r cyfrifon. Yr ymateb archwilio fydd adolygu a phrofi nodiadau datgelu yn y cyfrifol er mwyn sicrhau eu bod yn sylweddol gywir.

6.4 Mae Atodiad 3 yn amlinellu newidiadau i IFRS yn y dyfodol, sy'n berthnasol i lywodraeth ganolog. Nodwyd mai'r newid a fyddai'n cael yr effaith fwyaf sylweddol ar CFfDLC fyddai'r newid i drin prydlesi gweithdrefnau wrth gyfrifyddu, sydd i fod i ddod i rym ar gyfer 2019-20.

7. Archwilio Mewnol: Adroddiad Archwilio Diwedd Blwyddyn ac Adroddiad Archwilio Blynyddol 2017-18

7.1 Crybwyllodd Lauren Parsons fod y gwaith archwilio a gynhaliwyd yn ystod Rhagfyr 2017 wedi cynnwys Teithio, Cynhaliaeth a Threuliau Eraill, a Threfniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Manylwyd ar ganfyddiadau'r gwaith archwilio yn yr adroddiad, a oedd yn rhoi sgôr sicrwydd Sylweddol ar gyfer Teithio, Cynhaliaeth a Threuliau Eraill, a sgôr sicrwydd Cymedrol ar gyfer Trefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

7.2 Codwyd dau argymhelliad o ganlyniad i'r archwiliad. Un argymhelliad â blaenoriaeth ganolig mewn perthynas â Threfniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, ac un argymhelliad â blaenoriaeth isel mewn perthynas â Theithio, Cynhaliaeth a Threuliau Eraill. Esboniwyd fod yr argymhelliad â blaenoriaeth ganolig wedi codi o ganlyniad i ansicrwydd ynghylch sut i adrodd i'r gweinyddwr pensiynau ar lwfansau pensiynadwy. Fodd bynnag, nodwyd bod y gwall hwn wedi'i amlygu'n gyflym gan y gweinyddwr pensiynau a'i gywiro gan y Rheolwr Cyllid, felly ni fu unrhyw effaith niweidiol ar gofnod pensiwn yr unigolyn dan sylw. Rhoddwyd rheolaethau ar waith wedi hynny i sicrhau na fyddai'r gwall yn cael ei ailadrodd.

7.3 Roedd yr archwiliad hefyd wedi cynnwys gweithgarwch dilynol ar argymhellion blynyddoedd blaenorol, a chanfu fod 9 o'r 15 o argymhellion a oedd yn weddill wedi'u rhoi ar waith erbyn hyn. Roedd y 6 argymhelliad sy'n weddill wedi'u hailgodi, er i'r Pwyllgor nodi na allai'r mwyafrif o'r rhain gael eu rhoi ar waith nes i CFfDLC gynnal rhagor o waith arolygu sylweddol.

7.4 Ni ellid gweithredu'r argymhelliad sy'n weddill yn ymwneud â chynnal arolygon cymunedol nes i CFfDLC gynnal arolwg cymunedol, ac ystyriwyd ei bod yn annhebygol y byddai hyn yn digwydd yn y dyfodol agos. **Cytunwyd** y byddai'r argymhelliad hwn yn cael ei dynnu o'r argymhellion sy'n weddill a'i ailgodi pan fydd CFfDLC yn cynnal ei arolwg cymunedol nesaf. Byddai angen cynnwys nodyn yn y cynllun archwilio bod yr argymhelliad wedi'i ohirio nes y gellir ei roi ar waith.

Gweithredu: Deloitte **Erbyn:** 25 Gorffennaf 2018

- 7.5 Eir i'r afael â'r argymhellion archwilio sy'n weddill yn fanylach yn eitem 10 ar yr agenda.
- 7.6 Nodwyd nad oedd yr adroddiad archwilio diwedd blwyddyn yn rhoi unrhyw syniad ynghylch p'un a oedd y sampl o hawliadau teithio a chynhaliaeth a ddefnyddiwyd ar gyfer y prawf ar gyfer staff yn unig neu staff ac aelodau'r Comisiwn. Ystyriwyd y dylai'r sampl fod wedi cynnwys staff ac aelodau'r Comisiwn. **Cytunwyd** y byddai'r sampl a ddefnyddiwyd gan yr archwilydd yn cael ei gwirio er mwyn canfod pwy a gynhwyswyd.
Gweithredu: Rheolwr Cyllid / Deloitte **Erbyn:** 25 Gorffennaf 2018
- 7.7 Cododd y mater ynghylch p'un a ddylai'r Comisiwn Ffiniau i Gymru (CFfG) seneddol fod yn destun archwiliad mewnol. Er y nodwyd nad oedd arolwg seneddol wedi'i gwblhau er 2005, cyflawnwyd gwaith ar ddau arolwg ers hynny, sef un a ganslwyd ac un sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd. **Cytunwyd** y byddai'r mater hwn yn cael ei godi â CFfG yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2018.
Gweithredu: Prif Weithredwr **Erbyn:** 14 Mawrth 2018
- 7.8 Roedd yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2017-18 yn cynnwys crynodeb o'r gwaith archwilio, ac roedd ei ganfyddiadau'n rhoi sgôr sicrwydd cyffredinol o 'Sylweddol' i CFfDLC, ar sail y gwaith archwilio mewnol a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn. Roedd hefyd yn cynnwys hunanasesiad Deloitte o'i berfformiad wrth gwblhau'r gwaith archwilio yn ystod y flwyddyn.

8. Holiadur Blynyddol Asesiad Archwilio Mewnol 2017-18

- 8.1 Cynigiwyd y byddai aelodau'n cyfarfod â'i gilydd ar ôl y cyfarfod i lenwi'r holiadur. **Cytunwyd** y byddai'r Rheolwr Cyllid yn dadansoddi ymatebion yr aelodau ac yn adrodd ar y canlyniadau yn y cyfarfod nesaf. Cytunwyd y byddai fersiwn electronig o'r holiadur yn cael ei hanfon drwy'r e-bost at Julie James i'w chwblhau.
Gweithredu: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 25 Gorffennaf 2018

9. Adolygiad o Ymatebion Holiadur Hunansicrwydd y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg

- 9.1 Ystyriodd y Pwyllgor yr ymatebion i'w holiadur hunanasesu blynyddol, a oedd yn awgrymu y dangoswyd yr holl arfer da. **Penderfynwyd** y byddai'r Pwyllgor yn parhau â'r ymarfer hunanasesu bob blwyddyn ac yn ymdrechu i gynnal y safon uchel bresennol o gydymffurfiaid ag arfer da.

10. Argymhellion Archwilio – Adroddiad ar Gynnydd

- 10.1 Ystyriodd y Pwyllgor gynnydd ar yr argymhellion archwilio mewnol sy'n weddill.
- 10.2 Roedd dau argymhelliad yn weddill yn ymwneud ag arolygon etholiadol CFfDLC, sef un o 2012-13 ac un o 2014-15. Ni ellid darparu tystiolaeth o roi'r rhain ar waith nes i waith arolygu sylweddol gael ei gwblhau. Fodd bynnag, ar ôl dechrau'r arolygon etholiadol tua diwedd 2017, disgwyliwyd y byddai'n bosibl i Deloitte brofi a oedd yr argymhellion hyn wedi'u rhoi ar waith maes o law.

- 10.3 Fel y cytunwyd yn gynharach yn y cyfarfod, byddai'r argymhelliad sy'n weddill o 2014-15, yn ymwneud ag arolygon cymunedol CFfDLC, yn cael ei dynnu oddi ar restr yr argymhellion sy'n weddill a'i ohirio nes i arolwg cymunedol gael ei gynnal a'i gwblhau, a byddai nodyn yn cael ei ychwanegu at y Cynllun Archwilio i'r perwyl hwnnw.
- 10.4 Nodwyd na fyddai'n bosibl rhoi'r tri argymhelliad archwilio sy'n weddill ar waith, yn ymwneud â threfniadau TG newydd CFfDLC, nes i'r trefniadau gael eu rhoi ar waith, sef oddeutu 31 Ionawr 2019.
- 10.5 Roedd tri argymhelliad yn weddill i'w rhoi ar waith gan y Rheolwr Cymorth Busnes hefyd, gyda dyddiad cau o 31 Mawrth 2018. Ystyriwyd, o ystyried llwyth gwaith y Rheolwr Cymorth Busnes, na fyddai'r dyddiad hwn yn gyraeddadwy ar gyfer pob un o'r tri argymhelliad. **Cytunodd** y Pwyllgor y dylid adolygu'r dyddiad cau ar gyfer yr argymhellion hyn a'i ddiwygio, yn ôl yr angen.
- 10.6 Ystyriwyd y byddai'n well gweithredu argymhelliad archwilio mewnol 2017-18, sef diweddarau'r Cynllun Corfforaethol i gynnwys Datganiad o Genhadaeth, ar ôl derbyn Llythyr Cylch Gwaith 2018-19 gan Lywodraeth Cymru, ac felly cynigiwyd dyddiad cau diwygiedig o 30 Mehefin 2018. **Cytunodd** y Pwyllgor i ddiwygio'r dyddiad cau.
- 11. Adroddiad Blynyddol Drafft Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg 2017-18**
- 11.1 Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad drafft Cadeirydd y PAAR a **chytunodd** y dylid ychwanegu testun at baragraff 3.10 yr adroddiad, i ddatgan bod y Pwyllgor wedi rhoi ystyriaeth lawn i yswiriant teithio staff yn ystod 2017-18 ac wedi dilyn y drefn briodol, gan gynnwys ceisio cyngor gan Lywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.
Gweithredu: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 1 Ebrill 2018
- 11.2 **Cytunwyd** â'r adroddiad, yn amodol ar y newidiadau arfaethedig i baragraff 3.10 a rhai mân newidiadau eraill.
- 12. Datganiad Llywodraethu Drafft 2017-18**
- 12.1 Ystyriodd y Pwyllgor y Datganiad Llywodraethu Drafft. Crybwyllwyd bod y rhestrau o bwyntiau bwled ym mharagraffau 3.5 a 3.8 mewn fersiynau blaenorol wedi'u dileu erbyn hyn, a'u disodli gan destun cryno sylweddol fyrrach er mwyn cydymffurfio ar argymhelliad archwilio allanol 2016-17. Gwnaed sawl newid arall hefyd er mwyn cael gwared ag eitemau dyblyg a oedd hefyd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol i'r Cyfrifon.
- 12.2 Ystyriwyd nad oedd y ddogfen yn cyfeirio at yr heriau a wynebwyd gan CFfDLC yn ystod y flwyddyn, fel cynnal arolwg o'r ffiniau tua'r môr am y tro cyntaf, a symud ymlaen â'r rhaglen arolygon etholiadol yn unol â'r amserlen gytûn. **Cytunwyd** y byddai adran ychwanegol yn cael ei drafftio i roi amlinelliad cryno o'r heriau hyn. **Cytunwyd** y byddai'r Datganiad Llywodraethu diwygiedig yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod CFfDLC ym mis Mawrth.
Gweithredu: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 27 Mawrth 2018
- 13. Cofrestr Risg Pensiynau CFfDLC**

- 13.1 Nododd y Pwyllgor fersiwn gyfredol cofrestr risg pensiynau CFFDLC, ynghyd â chofnod o'r newidiadau a wnaed ers yr adolygiad diwethaf.
- 13.2 Nodwyd bod y risg weddilliol ar gyfer PEN2 wedi cynyddu o 6 i 9, i adlewyrchu'r canfyddiad archwilio mewnol diweddar ac argymhelliad yn ymwneud ag achos o gyflwyno data anghywir ar MyCSP.

14. Adroddiad Rheoli Risg

- 14.1 Nododd y Pwyllgor y cofrestrau a pholisi risg cyfredol. Adroddwyd ar fanylion am y newidiadau a wnaed i'r cofrestrau risg Corfforaethol a Gweithredol ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.
- 14.2 Ystyriwyd p'un a ddylid codi Risg Weithredol OP21, yn ymwneud â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data newydd, i risg gorfforaethol ai peidio. Cytunwyd y byddai'r risg hon yn cael ei hadolygu wedi i'r holl gamau gweithredu lliniarol arfaethedig gael eu sefydlu.
Gweithredu: Rheolwr Cymorth Busnes **Erbyn:** 25 Gorffennaf 2018

15. Adroddiad Monitro'r Gyllideb

- 15.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion yr adroddiad ar y gyllideb a gyflwynwyd yng nghyfarfod y Comisiwn ar 23 Ionawr 2018. Nodwyd bod y Comisiwn wedi ildio £30,000 o gymorth grant i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r tanwariant amcangyfrifedig.

16. Rhoddion a Lletygarwch – Adroddiad a Datganiadau

- 16.1 Nododd y Pwyllgor na fu unrhyw ddatganiadau o roddion neu letygarwch ar gyfer 2017-18, hyd yn hyn.

17. Cwynion

- 17.1 Nododd y Pwyllgor na chafwyd unrhyw gwynion ers yr adroddiad diwethaf.

18. Adroddiad Twyll a Chwythu'r Chwiban

- 18.1 Nododd y Pwyllgor na fu unrhyw achosion o chwythu'r chwiban na thwyll ers yr adroddiad diwethaf.

19. Adroddiad ar Ddiogelwch Data TG

- 19.1 Crybwyllwyd na fu unrhyw ddigwyddiadau yn ymwneud â diogelwch data ers yr adroddiad diwethaf.

20. Unrhyw fater arall

20.1 Nid oedd unrhyw fater arall.

21. Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf

21.1 Pennwyd dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf ar gyfer:

Dydd Mercher 25 Gorffennaf 2018
Dydd Mercher 21 Tachwedd 2018.

21.2 Cytunwyd y byddai cadarnhad o'r dyddiadau hyn yn cael ei anfon at aelodau drwy'r e-bost.

Gweithredu: Rheolwr Cyllid **Erbyn:** 28 Chwefror 2018